



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Asesiadau personol – Cwestiynau cyffredin i ysgolion

Beth yw diben asesiadau personol?

Diben yr asesiadau yw helpu dysgwyr i wneud cynnydd drwy ddeall yr hyn y maent yn gallu ei wneud, y pethau y mae angen gweithio arnynt a'r camau nesaf.

Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r asesiadau personol?

Mae'r asesiadau personol yn disodli'r profion papur fel a ganlyn:

Blwyddyn academaidd	Rhifedd (Gweithdrefnol)	Darllen (Cymraeg a Saesneg)	Rhifedd (Rhesymu)
2019/20	ar-lein	ar-lein	papur
2020/21	ar-lein	ar-lein	ar-lein

Pam y mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno asesiadau personol ar-lein?

Mae asesiadau personol yn darparu gwybodaeth fanwl ar sgiliau rhifedd a darllen dysgwyr unigol a dosbarthiadau cyfan. Gall athrawon ddefnyddio'r wybodaeth honno i gynllunio'r camau nesaf o ran dysgu ac addysgu. Drwy symud i asesiadau ar-lein, rydym yn manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf i roi profiad asesu personol sy'n addasu lefel yr her ar gyfer pob dysgwr.

Beth yw 'asesiadau personol'?

Mewn asesiadau personol neu 'addasol' y mae'r cwestiynau a gynhyrchir wedi'u seilio ar ymateb y dysgwr i'r cwestiwn blaenorol. Bydd dysgwr sy'n ateb cwestiwn yn gywir yn cael cwestiwn ychydig mwy heriol; bydd dysgwr sy'n ateb cwestiwn yn anghywir yn cael cwestiwn ychydig yn haws. Mae'r broses hon yn parhau nes bod y system asesu wedi cwmpasu'r agweddau perthnasol ar y cwricwlwm ac wedi casglu gwybodaeth ddigonol ar ymatebion y dysgwr. Mae hynny'n cynnig profiad asesu personol sy'n addasu lefel yr her ar gyfer pob dysgwr.

Mae'r asesiadau personol yn seiliedig ar y sgiliau sydd wedi'u hamlinellu yn y Framwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/>) Ar hyn o bryd, maent yn darparu gwybodaeth a fydd yn helpu athrawon i gynllunio camau nesaf y dysgu a'r addysgu mewn perthynas â Rhifedd (Gweithdrefnol) (ffeithiau a

gweithdrefnau rhifyddol – yr ‘offer’ sydd eu hangen i gymhwyso rhifedd mewn ystod eang o gyd-destunau) a Darllen. Bydd Rhifedd (Rhesymu) ar gael yn 2020/21.

Beth yw'r manteision?

Mae asesiadau personol:

- yn cynnig profiad rhyngweithiol sydd wedi'i deilwra er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr ac asesu lefel eu sgiliau
- yn cynnig gwybodaeth i athrawon am sgiliau a datblygiad eu dysgwyr
- yn cynnig adborth o ansawdd uchel yn fuan ar ôl cwblhau'r asesiadau
- yn cael eu marcio'n awtomatig
- ar gael i ysgolion ddewis pryd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd ar yr adeg orau o ran cefnogi addysgu, dysgu a chynllunio.

Pwy fydd y gorfod sefyll yr asesiadau?

Mae gofyn i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 2–9 sy'n astudio mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru sefyll yr asesiadau personol.

A fyddan nhw'n addas i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig?

Byddant. Mae fersiynau wedi'u haddasu o'r asesiadau ar gael. Mae'r rheini'n cynnwys y gallu i ehangu maint y testun, rheolaethau tab, ac addasiadau eraill. Mae'r asesiadau'n cydweddu â thechnolegau cynorthwyol safonol.

Ni fydd dysgwyr yn cael eu cyfyngu i ateb cwestiynau sydd wedi'u cysylltu â'u grŵp blwyddyn neu â'u hoedran. Mae natur 'addasol' yr asesiadau yn golygu bod pob cwestiwn a gynhyrchir wedi'i seilio ar ymateb y dysgwr i'r cwestiwn blaenorol. Bydd lefel yr anhawster yn amrywio hyd nes y bydd lefel y dysgwr wedi'i sefydlu ar ddiwedd yr asesiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr asesiadau wedi'u haddasu yn Atodiad 6 y Profion [Darllen a Rhifedd Cenedlaethol - Llawlyfr gweinyddu profion 2019/20](#).

Pa mor aml fydd dysgwyr yn sefyll yr asesiadau hyn?

Mae'n ofyniad statudol i ysgolion a gynhelir yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr ym Mlynnyddoedd 2–9 yn sefyll yr asesiadau unwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Mewn ymateb i adborth gan ymarferwyr sydd wedi bod ynghlwm wrth y gwaith o gynllunio a datblygu'r asesiadau, maent hefyd ar gael i'w defnyddio'r eilwaith gan ysgolion os byddant am wneud hynny.

Gall ysgolion ddewis cynnal yr asesiadau unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn academaidd.

Os bydd ysgolion yn penderfynu defnyddio'r asesiad am yr eilwaith, argymhellir nad yw dysgwyr yn gwneud mwy nag un asesiad y tymor.

Faint o waith paratoi sydd angen ei wneud cyn sefyll yr asesiadau?

Nid oes angen i ddysgwyr wneud unrhyw waith paratoi penodol ar gyfer yr asesiadau personol.

Mae'r asesiadau wedi'u cynllunio i fod yn hawdd eu defnyddio. Mae asesiadau enghreifftiol ar gael fel y gall dysgwyr weld y math o gwestiynau fydd yn ymddangos a deall sut i'w hateb, a hefyd cyfarwyddo â sut i lywio drwy'r asesiad.

Cyn gwneud yr asesiad, dylai ysgolion roi cyfle i ddysgwyr roi cynnig ar asesiad enghreifftiol.

Sut y bydd fy ysgol yn gallu cyrchu'r asesiadau?

Drwy [Hwb](#), platfform dysgu Llywodraeth Cymru. Gall ysgolion drefnu'r asesiadau ar gyfer eu dysgwyr, ac mae dysgwyr yn cael mynediad at yr asesiadau drwy fewngofnodi i [Hwb](#) yn yr ysgol.

Cyn i ddysgwyr allu gwneud yr asesiadau personol:

- bydd angen i'r pennaeth, neu aelod o staff sy'n gweithredu ar ei ran, roi swyddogaethau a mynediad i staff perthnasol;
- bydd angen i staff fewngofnodi i Hwb a mynd i wefan yr asesiadau personol;
- bydd angen i ddysgwyr fewngofnodi i Hwb a gwneud asesiad enghreifftiol er mwyn deall fformat y cwestiynau.

Pa gymorth fydd ar gael i'm hysgol?

Mae cymorth i ysgolion ar gael drwy fideos a chanllawiau i ddefnyddwyr ar-lein sy'n dangos sut y dylai'r asesiadau hyn gael eu gweinyddu a sut i ddod o hyd i adroddiadau ar gyfer dysgwyr a grwpiau. Mae'r adnoddau ategol hyn ar gael ar wefan yr asesiadau.

Anogir ysgolion i gofrestru ar gyfer gweminar i ddatblygu dealltwriaeth well o sut mae'r asesiadau'n gweithio a sut y gallan nhw ddefnyddio'r wybodaeth o'r asesiadau i gefnogi addysgu a dysgu. Hefyd, ar wefan yr asesiadau, gall ysgolion wyllo gweminarau am weinyddu'r asesiadau a gwneud y defnydd gorau o adborth ac adroddiadau i ddysgwyr.

Mae desg gymorth a reolir hefyd ar gael yn ystod oriau ysgol, sy'n cynnig gwasanaeth dwyieithog. I gael cymorth pellach, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth Asesiadau ar 029 2026 5099 neu cymorth@asesiadaupersonol.cymru

Faint o gyfrifiaduron fydd eu hangen ar fy ysgol?

Nid oes unrhyw ofyniad i ysgolion gael nifer fawr o gyfrifiaduron na dyfeisiau eraill e.e. llechi. Gall dysgwyr sefyll yr asesiadau un ar y tro, mewn grwpiau bach neu mewn dosbarthiadau, yn ôl dewis athrawon a chyfleusterau'r ysgol.

Beth yw'r gofynion o ran TGCh?

Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion o ran TGCh ar gael yn y Canllawiau i Ysgolion: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/asesiadau-darllen-a-rhifedd/asesiadau-personol>

Gellir gwneud yr asesiadau ar y dyfeisiau canlynol:

- cyfrifiaduron bwrdd gwaith
- gliniaduron – gan gynnwys Chromebooks
- llechi – gan gynnwys iPads

Rhaid ar borwr modern (gweler 'Gofynion Porwr'). Cyn cynnal asesiad, dylech sicrhau bod batris eich dyfeisiau'n llawn a bod pob diweddariad wedi'i wneud. Argymhellwn ddiweddarau apiau a systemau'n rheolaidd.

Nodwch na fydd Windows 7 bellach yn cael ei gefnogi gan Microsoft o fis Ionawr 2020 ymlaen. Anogir ysgolion i ddefnyddio trefniadau trwyddedu cenedlaethol Hwb ac uwchraddio i Windows 10. Gweithiwch gyda'ch Hwyluswr Digidol a'ch awdurdod lleol / partner cymorth TG i sicrhau bod eich systemau'n rhai hollol gyfredol.

Dylid defnyddio un o'r porwyr canlynol (dyma'r gofynion sylfaenol o ran porwr):

- Google Chrome 59
- Internet Explorer 11
- Mozilla Firefox 55
- Safari 10.

Nodwch: Nid yw Microsoft Edge yn borwr a gefnogir ar hyn o bryd. Byddwch yn gallu mynd i wefan yr asesiadau gydag Edge, ond fyddwch chi ddim yn gallu lansio'r Asesiad Personol Darllen gydag unrhyw fersiwn o Edge cyn fersiwn 77 – deallwn y bydd Edge yn cael ei ddiweddarau i fersiwn 77 ar Microsoft Windows tua dechrau 2020.

Fel rheol, bydd angen i chi gael lled band o 2Mbps o leiaf os byddwch yn asesu dosbarth o 30 o ddysgwyr, heb fod unrhyw ofynion o bwys ar y rhwydwaith ar yr un pryd.

Mae gan ein hysgol gysylltedd gwael – sut y byddwn ni'n cael mynediad at yr asesiadau?

Nid oes unrhyw ofyniad i ysgolion sicrhau bod pob dysgwr yn sefyll yr asesiadau ar yr un pryd. Felly, gallwch gynllunio i osgoi unrhyw broblemau o ran cysylltedd a allai fod gennych drwy gyfyngu ar nifer y dysgwyr sy'n cysylltu ar lein ar adeg benodol.

Os byddwch yn poeni am gysylltedd gwael, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol/partner cymorth TG a fydd yn gallu rhoi cyngor ichi ar unrhyw wendidau o fewn seilwaith rhwydwaith ardal leol eich ysgol (fel cydrannau rhwydweithio anghydnaws;

diffyg pwyntiau mynediad Wi-Fi etc.) Gall eich awdurdod lleol roi cyngor ichi ar allu seilwaith eich rhwydwaith mewnol presennol, a'r hyn y mae'n gallu ei gefnogi o ran defnyd' dio'r dechnoleg ddiweddaraf. Bydd hefyd yn gallu rhoi gwybod yr hyn sydd angen ei wella i fanteisio i'r eithaf ar y cysylltiad band eang sy'n cael ei ddarparu i'ch ysgol o dan Buddsoddi mewn Band Eang, sef rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth am seilwaith TG ysgolion a'r rhyngrwyd, ewch i wefan Safonau Digidol Addysg: <https://hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/safonau-digidol-addysg>

A fydd cyfnod yn cael ei neilltuo i gynnal yr asesiadau?

Na fydd. Mae gan ysgolion yr hyblygrwyd i drefnu cynnal yr asesiadau personol ar yr adeg fwyaf priodol yn eu barn nhw yn ystod y flwyddyn academiaidd, o ran y dysgu a'r addysgu.

Rhaid trefnu'r asesiadau personol ar ddiwrnod ysgol penodol ac o leiaf diwrnod cyn bod yr asesiad yn cael ei gynnal. Gellir eu cynnal ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol.

A fydd dosbarthiadau cyfan yn gorfod sefyll yr asesiadau ar yr un pryd?

Na fydd. Gall ysgolion drefnu i ddysgwyr unigol, grwpiau neu ddosbarthiadau cyfan sefyll yr asesiadau, yn unol â'r hyn sy'n well iddynt ac â'u cyfleusterau. Yn wahanol i'r profion papur, bydd yr asesiad ar gyfer pob dysgwr yn wahanol, ac felly nid oes angen i ddysgwyr sefyll yr asesiadau ar yr un pryd.

A all dysgwyr ddefnyddio papur i wneud nodiadau a gweithio allan eu hatebion yn ystod asesiad?

Gallan. Dylai dysgwyr gael papur a phensil/beiro i wneud nodiadau. Ni fydd y nodiadau hyn yn cael eu hasesu fel rhan o'r Asesiad Personol Rhifedd (Gweithdrefnol). Dylid gwneud yn glir i ddysgwyr mai dim ond yr atebion a gyflwynir ar y sgrin fydd yn cael eu hystyried.

A all dysgwyr fynd yn ôl i weld cwestiynau blaenorol?

Na. Oherwydd natur addason yr asesiadau, ni all dysgwyr fynd yn ôl at gwestiynau blaenorol. Fodd bynnag, nid oes terfyn amser, felly gall dysgwyr weithio yn eu pwysau a gwirio eu bod yn hapus cyn symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf. Mae'r canllawiau i ysgolion yn dweud y dylai athrawon ddweud wrth ddysgwyr i wirio eu hatebion cyn symud ymlaen.

A yw dysgwyr yn cael eu cyfyngu i gwestiynau ar gyfer eu grŵp oedran?

Llunnir yr asesiadau ar sail cwestiynau o gronfa fawr o gwestiynau a thestunau (ar gyfer yr asesiad darllen). Mae'r rhain yn seiliedig ar y sgiliau a bennir yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer Blynnyddoedd 2 i 9. Nid yw dysgwyr yn gyfyngedig i gwestiynau'n seiliedig ar eu hoedran. Mae natur

addasol y cwestiynau yn golygu bod bob cwestiwn yn cael ei ddewis yn seiliedig ar ateb y dysgwr i'r cwestiwn blaenorol. Bydd lefel y cwestiynau yn amrywio tan i'r asesiad bennu lefel y dysgwr ar ddiwedd yr asesiad.

Bydd dysgwyr yn cael rhai cwestiynau'n gywir a rhai'n anghywir. Mae'r canllawiau i ysgolion yn cynghori athrawon i esbonio i ddysgwyr, os byddan nhw'n gweld cwestiwn nad ydyn nhw'n ei ddeall neu sy'n rhy anodd, na ddylen nhw boeni na threulio gormod o amser arno, fe ddylen nhw symud ymlaen i'r nesaf.

A allwn ni ddewis cael profion papur ar ôl i'r asesiadau personol gael eu cyflwyno?

Na. Mae'r profion papur dod i ben yn raddol wrth i'r asesiadau personol gael eu cyflwyno ar gyfer Rhifedd (Gweithdrefnol), Darllen (Cymraeg a Saesneg), a Rhifedd (Rhesymu), fel y nodir yn y tabl uchod.

A fydd yr adborth ar gael ar unwaith?

Bydd adborth ar unigolion ar gael ar wefan yr asesiadau un diwrnod ar ôl i'r asesiadau gael eu cwblhau. Bydd athrawon yn cael cyfle i adolygu'r adborth unigol cyn ei ryddhau i ddysgwyr.

Pa adroddiadau fydd ar gael?

Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth am sgiliau dysgwyr unigol ar adeg gwneud yr asesiad. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am eu cryfderau a'r meysydd sydd, o bosib, yn peri anhawster iddyn nhw. Bydd amrywiaeth o adroddiadau ar gael i athrawon, gan gynnwys adroddiadau ar ddysgwyr unigol ac adroddiadau ar ddosbarthiadau/grwpiau. Anogir ysgolion i rannu adborth ac adroddiadau cynnydd dysgwyr unigol gyda rhieni a gofalwyr pan fo'r wybodaeth yn gyfredol.

A fydd canlyniadau'r asesiadau'n arwain at sgôr safonedig? Os felly, pryd fydd y sgôr ar gael?

Bydd yr asesiadau'n darparu ystod o wybodaeth ar sgiliau a chynnydd dysgwyr. Bydd cynnydd dros amser yn cael ei fesur drwy sgôr safonedig. Ar gyfer Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol), bydd y sgôr safonedig ar gael y diwrnod ar ôl yr asesiad. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o'r Asesiadau Personol Darllen, fydd y sgôr ddim ar gael tan ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Os bydd dysgwyr yn gwneud yr asesiadau ddwywaith mewn blwyddyn academiaidd, pa sgôr fydd yn 'cyfri'?

Rhoddir sgoriau i ysgolion er mwyn iddynt eu defnyddio ar y cyd â gwybodaeth fanwl arall ar sgiliau'r disgyblion er mwyn cynllunio dysgu ac addysgu, a chynorthwyo cynnydd dysgwyr. Mae'r asesiadau hyn yn ffurfiannol – dyna yw eu diben. Os yw ysgolion yn penderfynu gwneud yr asesiad ddwywaith, bydd y wybodaeth o'r ddau asesiad mor bwysig â'i gilydd i gefnogi dysgu ac addysgu. Nid yw Llywodraeth Cymru'n monitro'r data hwn ar lefel ysgolion unigol, ac nid yw'n

barnu ysgolion ar sail sgoriau sy'n deillio o'r asesiadau personol.

A fydd angen i'm hysgol anfon adroddiadau at rieni/gofalwyr?

Bydd. Bydd angen i ysgolion sicrhau bod copi o'r adborth ar ddysgwyr unigol yn cael ei anfon at rieni/gofalwyr ar ôl i'r asesiadau gael eu cwblhau, a hefyd copi o adroddiad cynnydd y dysgwr. Anogir ysgolion i rannu'r wybodaeth hon tra ei bod yn gyfoes. Os caiff yr asesiadau eu gwneud ddwywaith yn ystod y flwyddyn academaidd, dylai rhieni/gofalwyr gael copi o'r adborth o'r ddau asesiad.

O ran Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol), bydd adroddiad cynnydd yn cynnwys sgol safonedig ar sail oedran ar gael y diwrnod ar ôl yr asesiad. Darperir adroddiadau cynnydd ar gyfer yr Asesiad Personol Darllen i ysgolion i'w rhannu gyda rhieni/gofalwyr ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Sut dylai rhieni a gofalwyr gael mynediad at yr adroddiadau?

Mae gofyn i ysgolion sicrhau bod adroddiadau cynnydd ac adborth dysgwyr unigol o'r asesiadau yn cael eu rhannu'n ddiogel â rhieni a gofalwyr ar ôl i'r dysgwr wneud yr asesiad.

Anogir ysgolion i rannu'r adborth pan ei fod yn gyfredol. Os gwneir yr asesiadau ddwywaith mewn blwyddyn academaidd, dylai rhieni a gofalwyr gael adborth ar y ddau.

A fydd angen cwblhau pob cwestiwn o fewn amser penodol?

Na fydd. Mae'r dysgwyr yn gallu gweithio drwy'r cwestiynau yn ôl cyflymdra eu hunain. Gall athrawon stopio'r asesiadau dros dro, er enghraifft er mwyn rhoi egwyl i ddysgwyr ifanc.

Sut y galla' i gael gwybod mwy?

Byddwn ni'n cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf drwy gylchlythyr Dysg (cofrestrwch i dderbyn y cylchlythyr os nad ydych chi eisoes wedi gwneud: https://llyw.cymru/tanysgrifiwch-ar-gyfer-newyddion-ynghylch-addysg-hyfforddiant-dysg?_ga=2.68463953.1144670150.1571137056-1094150023.1570641759), a gallwch hefyd ein dilyn ni ar Twitter [@WG_Education](#). Byddwn ni hefyd yn ychwanegu rhagor o wybodaeth at y cwestiynau cyffredin wrth i'r asesiadau personol gael eu datblygu.

Ceir canllawiau ar weinyddu'r asesiadau personol yn [Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2019/20](#)

Tua dechrau 2020, bydd y consortiwm sy'n gyfrifol am ddatblygu'r asesiadau personol ar ran Llywodraeth Cymru yn profi'r Asesiadau Personol Rhesymu. Bydd hynny'n rhoi cyfle ichi ddeall sut y bydd yr asesiadau hyn yn gweithio a bydd modd i chi gael adborth ar sgiliau eich dysgwyr.

Os hoffech chi gymryd rhan yn broses dreialu, cysylltwch â trials@personalisedassessments.wales.